**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Mehefin 24ain, 2026 am 7.25 yh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol Cynghorwyr** | G. J. Davies | R. Barnes | A. J. Evans |
| | D. W. Hopkins | L. Wilkins | E. W. Nicholas |
| | D. Thomas | K. D. L. Davies | E. J. Davies (Cadeirydd) |
| **Yn mynychu arlein:** | Neb | | |
| **Ymddiheuriadau** | L. Jones | J. W. Tandy | S. Roberts |
| **Absennol** | Neb | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFAR-FOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR FEHEFIN 24ain, 2026, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.**

**1010. Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**1011.**

**Trafodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio canlynol:**

Ystyriaethau cynllunio i dderbyn SYLWADAU:

**Cais Cynllunio Rhif PL/10908**

- 30 Heol Rawlings, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3YD
- Estyniad un llawr arfaethedig i gefnlun tŷ annedd

**Sylwadau:** Nodwyd ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad oddiwrth breswylwyr cyfredol; yr unig beth a allai godi yw rhwystro goleuni i eiddo cyfagos, ond ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad ar sail y mater hwn.

**Cais Cynllunio Rhif PL/10903**

- Cyfnod II Parc Emlyn, Oddiar Heol Norton, Penygroes, Llanelli, SA14 7NP
- Gollwng Amodau 3, 4, 5, 6, 15, 16, 17, 18 a 23 o gais cynllunio PL/09700 (Gorffeniadau allanol, cynllun rheoli'r adeiladu, trin y ffiniau a goleuo allanol, archeoleg, cynllun rheoli traffig adeiladu yr archeoleg, asesu ansawdd yr aer, lliniaru ar lwch, strategaeth clirio llysdyfiant a chynllun draenio dŵr brwnt).

**Sylwadau:** Nodwyd bod y 4 ymgynghorai, sef Dŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Archeoleg, yr Adrad Briffyrdd a'r Adran Iechyd Amgylcheddol wedi datgan eu bod yn hapus i ollwng yr Amodau.

**1012.** Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.22 yh